Rhaglen Gyflawn

Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

Cyfarfod

IS-BWYLLGOR LLES ECONOMAIDD CBC Y GOGLEDD

Dyddiad ac Amser

9.30 y.b., DYDD GWENER, 13EG MAWRTH, 2026

Lleoliad

Cyfarfod Rhithiol

Am fynediad cyhoeddus, cysylltwch â ni

Pwynt Cyswllt

Rhodri Jones

01286 679556

Rhodrijones1@gwynedd.llyw.cymru

IS-BWYLLGOR LLES ECONOMAIDD CBC Y GOGLEDD

Aelodau a phleidlais

Y Cynghorwyr

Gary Pritchard	Cyngor Sir Ynys Môn
Nia Jeffreys	Cyngor Gwynedd
Julie Fallon	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Jason McLellan	Cyngor Sir Ddinbych
Dave Hughes	Cyngor Sir y Fflint
Mark Pritchard	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Aelodau Cyfetholedig – Heb bleidlais

Yr Athro Edmund Burke	Prifysgol Bangor
Yr Athro Joe Yates	Prifysgol Wrecsam
Yana Williams	Coleg Cambria
Aled Jones-Griffith	Grŵp Llandrillo Menai
David Roberts	Cadeirydd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol
Edgar Wyn Owen	Parc Cenedlaethol Eryri

Prif Weithredwyr Cynghorau Cyfansoddol

Dylan Williams	Cyngor Sir Ynys Môn
Dafydd Gibabrd	Cyngor Gwynedd
Rhun ap Gareth	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Helen White	Cyngor Sir Ddinbych
Neal Cockerton	Cyngor Sir y Fflint
Alwyn Jones	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Swyddogion yn bresennol

Alwen Williams	Prif Weithredwr y CBC
Mark Watkins	Swyddog Monitro Dros Dro
Claire Incledon	Dirprwy Swyddog Monitro
Dewi Morgan	Prif Swyddog Cyllid
Hedd Vaughan-Evans	Pennaeth Gweithrediadau
Nia Medi Williams	Uwch Swyddog Gweithredol

R H A G L E N

1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL 5 - 13

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod y pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 06 Chwefror 2026 fel rhai cywir.

5. RHAGLEN SGILIAU PARTH BUDDSODDI SIR Y FFLINT A WRECSAM 14 - 22

Iain Taylor (Rheolwr Rhaglen Parth Buddsoddi) ac Sian Lloyd Roberts a Rees Brown o'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, i gyflwyno'r adroddiad.

6. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei bod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972: Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny).

Er bod diddordeb y cyhoedd mewn tryloywder ac atebolrwydd, mae hyn yn cael ei orbwyso ar hyn o bryd gan yr angen i ddiogelu gwybodaeth fasnachol sensitif o ystyried y byddai datgelu yn debygol o ragfarnu trafodaethau parhaus a gallu'r awdurdod i sicrhau'r gwerth gorau a diogelu'r defnydd priodol o arian cyhoeddus.

7. ACHOS BUSNES AMLINELLOL PORTH WRECSAM

David Mathews (Rheolwr Rhaglen Tir ac Eiddo) i gyflwyno'r adroddiad.

8. CAIS AM NEWID: PARC BRYN CEGIN, BANGOR

Hedd Vaughan-Evans (Pennaeth Gweithrediadau) a David Mathews (Rheolwr Rhaglen Tir ac Eiddo) i gyflwyno'r adroddiad.

9. ACHOS BUSNES LLAWN EGNI

Meghan Davies (Rheolwr Rhaglen Ynni a Sero Net) i gyflwyno'r adroddiad.

10. ACHOS BUSNES AMLINELLOL CANOLFAN ARLOESI, BUSNES A SGILIAU TRAWSFYNYDD

Meghan Davies (Rheolwr Rhaglen Ynni a Sero Net) i gyflwyno'r adroddiad.

11. HWB ECONOMI WLEDIG GLYNLLIFON ACHOS CYFIAWNHAD BUSNES AR GYFER DATBLYGIAD LLAETH CYNALIDAWY

Elliw Hughes (Rheolwr Rhaglen y Cynllun Twf) i gyflwyno'r adroddiad.

12. CAIS AM NEWID PROSIECT ACADEMI CROESO (A ELWID GYNT YN BROSIECT RHWYDWAITH TALENT TWRISTIAETH)

Elliw Hughes (Rheolwr Rhaglen y Cynllun Twf) i gyflwyno'r adroddiad.

IS-BWYLLGOR LLES ECONOMAIDD CBC Y GOGLEDD
06/02/2026

Yn bresennol:

Y Cynghorwyr: Y Cynghorydd Mark Pritchard (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Jason Mclellan (Cyngor Sir Ddinbych) (Is-gadeirydd).

Dave Hughes (Cyngor Sir y Fflint), Nia Jeffreys (Cyngor Gwynedd) a Gary Pritchard (Cyngor Sir Ynys Môn).

Aelodau Cyfetholedig: Yr Athro Paul Spencer (Prifysgol Bangor), Yr Athro Joe Yates (Prifysgol Wrecsam), Aled Jones-Griffith (Grŵp Llandrillo Menai), David Roberts (Cadeirydd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol), Edgar Wyn Owen (Parc Cenedlaethol Eryri) a Dave Penrith (Ymgynghorydd Anweithredol).

Prif Weithredwyr Cynghorau Cyfansoddol: Dylan Williams (Cyngor Sir Ynys Môn), Sioned Williams (Cyngor Gwynedd), Rhun ap Gareth (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Helen White (Cyngor Sir Ddinbych) a Richard Weigh (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam).

Swyddogion eraill yn bresennol: Alwen Williams (Prif Weithredwr y CBC), Hedd Vaughan-Evans (Pennaeth Gweithrediadau), Dewi Morgan (Prif Swyddog Cyllid), Sian Pugh (Pennaeth Cynorthwyol Cyllid), Sara Jane Jones (Uwch Gyfrifydd), Iwan Evans (Swyddog Monitro), Mark Watkins (Pennaeth Cyfreithiol Dros Dro), Claire Incledon (Dirprwy Swyddog Monitro), Colin David Mathews (Rheolwr Rhaglen Tir ac Eiddo), Elliw Alaw Hughes (Rheolwr Rhaglen Cynllun Twf), Meghan Davies (Rheolwr Ynni a Sero Net), Nia Medi Williams (Rheolwr Adnoddau ac Gweithrediadau), Iain Taylor (IMT Consulting) a Rhodri Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

Sylwedyddion: Wendy Boddington (Llywodraeth Cymru) a Gareth Ashman (Llywodraeth y DU)

Eraill a Wahoddwyd:

Eitem 10: Stephen McGregor a Jon Travis (Llywodraeth Cymru)

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan:-

- Y Cynghorydd Julie Fallon (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy).
- Yr Athro Edmund Burke (Prifysgol Bangor) gyda'r Athro Paul Spencer yn dirprwyo.
- Yana Williams (Coleg Cambria)
- Dafydd Gibbard (Cyngor Gwynedd) gyda Sioned Williams yn dirprwyo.
- Alwyn Jones (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) gyda Richard Weigh yn dirprwyo.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyniwyd datganiadau o fuddiant personol ar gyfer Eitem 10 gan Wendy Boddington (Sylwedydd Llywodraeth Cyrmu) a Gareth Ashman (Sylwedyddion Llywodraeth y DU). Nodwyd ei fod yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu a bu iddynt adael y cyfarfod ar gyfer

trafodaeth ar yr eitem, yn dilyn cyflwyniad ar yr eitem a chyfle i Aelodau ofyn cwestiynau ychwanegol.

Derbyniwyd datganiad o fuddiant personol ar gyfer Eitem 11 gan yr Athro Joe Yates (Prifysgol Wrecsam). Nododd ei fod yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu a bu iddo adael y cyfarfod ar gyfer yr eitem.

3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 05 Rhagfyr 2025 fel rhai cywir.

5. CYNLLUN TWF GOGLEDD CYMRU – ADRODDIAD PERFFORMIAD A RISG CHWARTER 3

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Pennaeth Gweithrediadau.

PENDERFYNIAD

1. **Nodi Adroddiad Perfformiad Chwarter 3 a Chofrestr Risg y Portffolio wedi'i ddiweddaru.**
2. **Cymeradwyo cyflwyno Adroddiad Perfformiad Chwarter 3 i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, ynghyd a phwyllgorau craffu'r awdurdodau lleol.**

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae adrodd chwarterol ar gynnydd yn erbyn Cynllun Twf Gogledd Cymru yn un o ofynion Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf.

TRAFODAETH

Tywyswyd yr Aelodau drwy nifer o uchafbwyntiau megis bod pump o brosiectau o restr wrth gefn y Cyd-bwyllgor wedi cael eu cymeradwyo'n ffurfiol i fod yn rhan o'r Cynllun Twf. Manylwyd bod y rhain yn cynnwys Achos Cyfiawnhad Busnes ar gyfer Society 5.0, Safleoedd ac Adeiladau Gogledd Môn, Porth y Porthladd Rhydd ac Achosion Busnes Amlinellol ar gyfer Prosiect Prince a Dyfodol Venue Cymru.

Eglurwyd bod ail Adolygiadu Portffolio wedi ei gwblhau gan ystyried y prosiectau oedd yn adrodd yn goch. Nodwyd bod hyn wedi rhyddhau £58miliwn o arian i gael ei ail-fuddsoddi gan yr Is-bwyllgor hwn.

Diweddarwyd bod dau gais am newid wedi cael eu cymeradwyo yn ddiweddar, sef safle Cyn Ysbyty Gogledd Cymru a'r prosiect Anturiaethau Cyfrifol. Mynegwyd balchder bod Cytundeb Ariannu Grant ar gyfer Hwb Economi Wledig Glynllifon hefyd wedi ei gymeradwyo ym mis Tachwedd 2025, gan gadarnhau bod cwmni lleol Adeiladwaith OBR wedi eu penodi i adeiladu safle Defaid Llaeth Cymru.

Tynnwyd sylw bod dau ddigwyddiad lansio wedi cael eu cynnal a hynny ar gyfer adeilad CanfodAu Prifysgol Wrecsam ac Academi Croeso, Grŵp Llandrillo Menai.

Ymfalchïwyd bod dau Ymgynghorydd Anweithredol wedi cael eu penodi. Eglurwyd y byddent yn chwarae rôl allweddol fel Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Bwrdd Ymgynghori Busnes newydd.

Cadarnhawyd mai prosiect Hwb Hydrogen Caergybi yw'r unig un sydd o dan adolygiad ar hyn o bryd gan ei fod yn adrodd yn goch yn erbyn proffil cyflawni y portffolio. Fodd bynnag, nodwyd bod y cyllid ar ei gyfer wedi ei glustnodi. Diweddarwyd bod gwaith yn cael ei wneud i ddatblygu materion allweddol a datrys risgiau er mwyn sicrhau bod Achos Busnes Amlinellol yn cael ei ddatblgyu ar y prosiect hwn er mwyn sicrhau bod y prosiect yn parhau i'r dyfodol. Rhannwyd diweddariad bod chwe prosiect yn weithredol, 10 wedi ei gymeradwyo ond ddim yn weithredol, 7 Achos Busnes yn cael ei ddatblygu ac bod 15 prosiect yn parhau i fod ar y rhestr wrth gefn.

Adroddwyd ar fuddsoddiad y Cynllun Twf gan nodi bod oddeutu £27miliwn wedi cael ei fuddsoddi hyd yma. Diweddarwyd yr amcangyfrifir hyn i fod oddeutu £30miliwn erbyn diwedd y flwyddyn ariannol gyfredol oherwydd bod prosiectau yn datblygu yn gyflymach a bod mwy o Achosion Busnes yn cael eu datblygu a dod yn weithredol. Nodwyd hefyd nad oedd diweddariad ar y swyddi newydd a grëwyd drwy'r prosiectau yn yr adroddiad hwn gan gadarnhau bydd hyn yn cael ei ddiweddaru erbyn adroddiad Chwarter 4.

Pwysleisiwyd bod y gofrestr risg yn cael ei ddiweddaru'n llawn gan y Swyddfa Rheoli Portffolio yn rheolaidd. Cadarnhawyd nad oes unrhyw newid i'r sgôr risgiau o'r hyn ag adroddwyd yn Chwarter 2. Ychwanegwyd bod pedwar o risgiau gweddilliol yn adrodd yn goch sef y buddsoddiad sector breifat, amcanion gwariant, cynllunio a chaniatâd statudol a'r cyd-destun economaidd gan olygu bod y proffil risg yn parhau'n uchel.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Mewn ymateb i sylwadau am y gwybodaeth a gyhoeddir parthed y swyddi sydd wedi eu creu, mathau o rolau, eu gwerth cyflog ac ardal maent wedi ei leoli, cadarnhaodd y Pennaeth Gweithrediadau bod cais wedi cael ei rannu gyda'r Aelodau er mwyn ymchwilio i ba wybodaeth y dymunent ei weld. Ymhelaethwyd bod y Pennaeth Gweithdrediadau wedi cysylltu gyda'r Aelodau gyda dadansoddiad o wybodaeth cyflogaeth, gan ofyn iddynt gysylltu gyda'r Swyddfa Rheoli Portffolio os yn dymuno derbyn gwybodaeth ychwanegol. Cydnabuwyd nad oedd ymateb wedi ei dderbyn gan Aelodau o'r cais hwn. Cadarnhawyd bydd y cais yn cael ei gylch-redeg yn dilyn y cyfarfod hwn, gyda gwybodaeth bellach y gofynir amdano yn cael ei fewngorffori i adolygiad Chwarter 4.

Diolchwyd am yr adroddiad.

6. CYLLIDEB 2026/27

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Pennaeth Cynorthwyol Cyllid.

PENDERFYNIAD

1. **Nodi cyllideb refeniw y Cynllun Twf ar gyfer 2026/27.**
2. **Nodi cyfraniadau ariannu sy'n cynnwys cyfraniadau partneriaid, cyfraniadau atodol awdurdodau lleol a chyfraniadau llog partneriaid.**
3. **Nodi cyllideb gyfalaf y Cynllun Twf ar gyfer 2026/27.**

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae angen cyllideb flynyddol i'r Cynllun Twf er mwyn gweithredu'n effeithiol o fewn y cyllid sydd ar gael.

TRAFODAETH

Atgoffwyd bod cyllideb y Cynllun Twf wedi ei gymeradwyo eisoes fel rhan o'r adroddiad Cyllideb 2026/27 a gyflwynwyd i Gyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd yn ei gyfarfod ar 23 Ionawr 2026.

Cadarnhawyd bod y gyllideb gwariant refeniw ar gyfer 2026/27 oddeutu £2.95miliwn gan egluro y daw'r arian hynny o'r ffynonellau canlynol:

- £470,000 o gyfraniadau partneriaid
- £240,000 o gyfraniadau atodol awdurdodau lleol
- £154,000 o gyfraddau llog partneriaid
- £660,000 o'r grant cynllun Twf sydd wedi ei glustnodi ar gyfer yr elfen refeniw
- £435,000 o'r grant Cynllun Twf sydd wedi ei glustnodi o'r prosiectau
- £987,000 o'r gronfa adnoddau.

Eglurwyd nad oes cynnydd yng nghyfraniadau partneriaid oherwydd bod gostyngiad yng nghyfradd cyfraniadau pensiwn y cyflogwr o 2026/27 yn gwrthbwyso'r addasiad alldro ar gyfer 2025/26, a'r amcan chwyddiant cyflog ar gyfer 2026/27.

Tynnwyd sylw bod newidiadau mewn prosiectau yn y proffil cyfalaf wedi arwain at gynnydd cyffredinol yn amcan cost o fenthyca o'i gymau â'r cyfrifiad a wnaethpwyd yng nghyllideb 2025/26. Nodwyd bod rhai partneriaid yn arwain prosiectau Cynllun Twf eu hunain a bod y gost gysylltiedig o fenthyca wedi cael ei ychwanegu at eu cyfraddau llog. Fodd bynnag, nodwyd bod y cyfraniadau o fewn y trothwy sydd wedi eu cymeradwyo yn y Cytundeb Cyflawni ac Ariannu.

Rhannwyd proffil gwariant diweddaraf ar gyfer pob prosiect o fewn y Cynllun Twf ar gyfer y cyfnod 2021/22 i 2034/35. Yn ogystal, â'r proffil ar gyfer y 2.15% sy'n cael ei ddefnyddio i ariannu'r gyllideb refeniw. Pwysleisiwyd bod y proffil yn seiliedig ar amserlen y prosiectau diweddaraf gan nodi y byddai'n cael ei adolygu yn gyson wrth i achosion busnes gael eu cymeradwyo.

Diolchwyd am yr adroddiad.

7. SEFYLLFA REFENIW A CHYFALAF 2025/26 – ADOLYGIAD DIWEDD RHAGFYR 2025

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Pennaeth Cynorthwyol Cyllid.

PENDERFYNIAD

1. **Nodi adolygiad refeniw diwedd Rhagfyr 2025, gan gynnwys y sefyllfa cronfeydd wrth gefn.**
2. **Nodi a derbyn proffil gwariant cyfalaf diwygiedig y Cynllun Twf.**

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Rhagwelir tanwariant o £618,025 yn erbyn cyllideb refeniw'r Is-bwyllgor Lles Economaidd ar gyfer 2025/26. Bydd y tanwariant terfynol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn cael ei ddefnyddio i leihau'r swm a hawlir o grant Cynllun Twf Gogledd Cymru a'r gronfa adnoddau, a gofynnir am gymeradwyaeth pan gyflwynir yr adroddiad alldro i'r CBC.

I nodi llithriad ar y rhaglen gyfalaf, gydag amcangyfrif o wariant o £22.15m yn 2025/26 o'i gymharu â chyllideb gymeradwy o £29.61m ar gyfer y flwyddyn.

TRAFODAETH

Atgoffwyd bod yr adolygiad hwn o sefyllfa refeniw a chyfalaf 2025/26 wedi ei gymeradwyo fel rhan o'r adroddiad 'Adolygiad 2025/26' a gafodd ei gyflwyno i'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig yn ei gyfarfod ar 23 Ionawr 2026.

Darparwyd amcan o sefyllfa ariannol y Cynllun Twf, gan gadarnhau yr amcanir tanwariant o £618,000 erbyn diwedd y flwyddyn ariannol gyfredol. Tynnwyd sylw mai tanwariant o £281,000 a ragwelwyd yn yr adolygiad ym mis Gorffennaf 2025 gan egluro bod y cynnydd hwn i'w weld yn bennaf oherwydd tanwariant pellach ym maes gwariant gweithwyr yn ogystal â rolau llywodraeth ychwanegol, gwasanaethau Cefnogol y corff atebol a phrosiectau.

Rhannwyd amcan o falansau cronfeydd y Cynllun Twf ar 31 Mawrth 2026 er gwybodaeth.

Adroddwyd ar broffil cyfalaf diwygiedig ar gyfer y Cynllun Twf gan egluro bod gostyngiad net o £7.46miliwn yn y gwariant disgwyliedig ar gyfer 2025/26. Nodwyd bod hyn yn deillio o lithriadau mewn rhai prosiectau. Fodd bynnag, cadarnhawyd bod datblygiad prosiectau megis Cydnerth, Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol a Hwb Economi Wledig Glynllifon wedi cyfrannu at leihau'r tanwariant hwn.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Mewn ymateb i sylwadau am danwariant yn y maes gwariant gweithwyr, cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol ei fod yn danwariant gan nad oedd modd penodi unigolion i rai swyddi nes yn hwyrach ymlaen yn y flwyddyn. Ymhelaethwyd bydd opsiynau am beth i'w wneud gyda'r arian tanwariant hwn yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Nododd y Swyddog Monitro bod rhai cyllidebau wedi eu gwarchod yn dilyn trefniant trosglwyddo'r Cynllun Twf yn 2025.

Pryderwyd bod tanwariant o oddeutu £618,000 o fewn y Cynllun Twf, gan fod yr Awdurdodau Lleol yn dioddef pwysau o ddiffyg cyllidebu effeithiol. Mewn ymateb, nododd y Prif Weithredwr nad oedd gan Uchelgais Gogledd Cymru incwm craidd rheolaidd a chyson gan bwysleisio bod ei sefyllfa ariannol yn wahanol i'r Awdurdodau Lleol.

Diolchwyd am yr adroddiad.

8. PARTH BUDDSODDI SIR Y FFLINT A WRECSAM – CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL (APD) BLWYDDYN 2

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Prif Weithredwr ac ymgynghorydd IMT Consulting.

PENDERFYNIAD

- **Cymeradwyo dyraniadau buddsoddi'r Cynllun Cyflawni Blynyddol ar gyfer Blwyddyn 2 a nodi'r dyraniadau ym Mlwyddyn 1 fydd yn cael eu defnyddio fel rhan o'r rhaglen Blwyddyn 2.**
- **Cymeradwyo'r Rhaglen Parth Buddsoddi, yn cynnwys dyraniad £4m i brosiect Porth Busnes Prifysgol Wrecsam.**

- **Caniatáu i Swyddog A151 y CBC lofnodi a chyhoeddi dogfennau'r ADP i Lywodraeth y DU, a Llywodraeth Cymru a gwneud unrhyw fân ddiwygiadau amherthnasol pellach sy'n angenrheidiol i gytuno ar yr ADP gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.**

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae'n ofynnol i Barthau Buddsoddi gytuno ar Gynllunio Cyflawni Blynyddol gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn chwarter olaf y flwyddyn ariannol er mwyn sicrhau'r taliad blynyddol gan Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill ym mhob blwyddyn ariannol.

TRAFODAETH

Eglurwyd bod yr adroddiad yn nodi rhaglen arfaethedig Cynllun Cyflawni Blynyddol Blwyddyn 2 Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam ar gyfer y flwyddyn ariannol 2026/27. Manylwyd ar y gwaith sydd wedi cael ei wneud yn ystod y flwyddyn gyntaf ac yn adrodd ar y dyraniadau sydd wedi eu cyflwyno i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar gyfer Blwyddyn 2, gan gadarnhau y disgwylir iddo ddod i law ym mis Ebrill 2026. Ymfalchïwyd bod y datblygiad hwn yn sicrhau parhad datblygiad a momentwm y flwyddyn gyntaf.

Atgoffwyd yr aelodau o'r datblygiadau a gyflawnwyd o fewn y flwyddyn gyntaf, gan gynnwys sefydlu strwythur llywodraethiant y Rhaglen, ffurfio seilwedd cynllunio'r Rhaglen yn ogystal â datblygiad cychwynnol y prosiectau blaenoriaeth.

Tywyswyd yr Aelodau drwy'r dyraniadau sydd wedi cael eu cyflwyno ar gyfer Blwyddyn 2, yn ogystal â'r datblygiadau y disgwylir eu cyflawni i'r Rhaglen. Pwysleisiwyd bod y targedau hyn wedi eu ffurfio yn unol ag amcanion y Parth Buddsoddi gan eu bod yn ymwneud â themâu seilwaith, sgiliau, arloesi a chefnogaeth busnes.

Amlygwyd bod y cynllun hwn yn un sydd yn pwysleisio ar gyflawni, a'i fod yn adlewyrchu'r newid o'r flwyddyn gyntaf a oedd yn ffocysu ar sefydlu gweithdrefn gadarn. Edrychwyd ymlaen am flwyddyn brysur o ymgorffori'r prosiectau a gweithdrefnau yn ystod Blwyddyn 2.

Adroddwyd bod y cynllun arfaethedig yn ymgorffori newidiadau bychan a gytunwyd arnynt o fewn y flwyddyn gyntaf megis caniatáu £4miliwn i gefnogi prosiect Porth Busnes Prifysgol Wrecsam.

Cadarnhawyd bod ymgynghoriad wedi cael ei wneud gydag arweinwyr Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Sir Wrecsam a bod eu mewnbwn yn cael effaith ar lywodraethiant y Parth Buddsoddi. Ymhelaethwyd bod ymgynghoriadau yn elfen bwysig iawn o'r Parth Buddsoddi, gyda phob ymdrech i sicrhau ei fod yn ysbrydoli pobl ifanc, perchnogion busnes a bod pob unigolyn a all elwa o'r Parth Buddsoddi yn ymwybodol o sut y gall wneud hynny. Nodwyd bydd rhai o'r prosiectau yn cael eu cyflwyno i'r Aelodau er mwyn gallu miniogi'r ffordd orau o'u hyrwyddo'n ehangach.

Cyhoeddwyd bod Rhaglen Cefnogi Busnes wedi cael ei lansio yn ddiweddar, a'i fod yn Raglen ble mae Cyngor Sir Y Fflint a Chyngor Sir Wrecsam yn gwneud y penderfyniad terfynol ar y prosiectau a ddewisir. Cadarnhawyd bydd Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd yn parhau i dderbyn achosion busnes ar gyfer y prosiectau mawr, gan nod y disgwylir Achos Busnes ar gyfer prosiect trawsnewid rhwydwaith bysiau yn fuan. Nodwyd bydd y Bwrdd Sgiliau Rhanbarthol yn derbyn cynigion gan Brifysgol Wrecsam a Choleg Cambria cyn i'r Aelodau benderfynu pa gynigion all y Parth Buddsoddi ei gefnogi.

Manylwyd bod nifer o brosiectau wedi bod yn cael eu datblygu dros yr 18 mis diwethaf, tra oedd y Parth Buddsoddi yn cael ei ffurfio. Eglurwyd y disgwylir Memorandwm o Ddealltwriaeth gan y Llywodraethau er mwyn gallu cydlynu cymeradwyo rhaglenni'r Parth Buddsoddi er mwyn gallu datblygu cynnig grant i gynorthwyo'r Rhaglen.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Cadarnhawyd mai dyma'r Parth Buddsoddi cyntaf i gael ei wneud y tu hwnt i Loegr. Diolchwyd i bawb sydd wedi ei ddatblygu ar raddfa gyflym, gan obeithio bydd y datblygiad yn parhau ar yr un cyflymder i'r dyfodol.

Mynegwyd balchder bod y Parth Buddsoddi yn cael ei ddatblygu a bod cydweithio clos rhwng Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Sir Wrecsam a'r holl bartneriaid sydd yn ei ddatblygu. Ategwyd sylwadau o'r angen i sicrhau bod y gwaith a wnaed yn cael ei hyrwyddo'n effeithiol.

Manylwyd ar ddyraniadau o fewn thema 'Seilwaith' y Parth Buddsoddi gan nodi cefnogaeth i gynyddu cyfraniad cyfalaf i hyd at £6miliwn i brosiect Padeswood Siding yn amodol ar y broses o gais am newid rhwng Llywodraeth Cymru a Chynllun Twf Uchelgais Gogledd Cymru.

Diolchwyd i bawb sydd wedi gweithio i ddatblygu'r Parth Buddsoddi hyd yma gan edrych ymlaen at barhau i gydweithio i'r dyfodol.

Diolchwyd am yr adroddiad.

9. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Pleidleisiwyd ar y cynnig i gau allan y wasg a'r cyhoedd a bu i'r Cynghorydd Nia Jeffreys atal ei phleidlais ar yr eitem hon.

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei bod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972: Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny).

Mae budd cyhoeddus cydnabyddedig mewn bod yn agored ynglŷn â defnydd adnoddau cyhoeddus a materion ariannol cysylltiedig. Cydnabyddir fodd bynnag fod adegau, er gwarchod buddiannau ariannol a masnachol cyhoeddus fod angen trafod gwybodaeth o'r fath heb ei gyhoeddi. Mae'r adroddiad yn benodol ynglŷn â materion ariannol a busnes ynghyd a thrafodaethau cysylltiedig Byddai cyhoeddi gwybodaeth fasnachol sensitif o'r math yma yn gallu bod yn niweidiol i fuddiannau'r cyrff a'r CBC ac yn tanseilio hyder rhai eraill sydd yn ymwneud a'r Cytundeb Twf i rannu gwybodaeth sensitif ar gyfer ystyriaeth. Byddai hyn yn groes i'r budd cyhoeddus ehangach o sicrhau'r allbwn cyfansawdd gorau.

10. PADESWOOD – CAIS AM NEWID

Cyflwynwyd yr adroddiad gan gynrychiolwyr Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

PENDERFYNWYD

Cefnogi'r cais am newid gan Lywodraeth Cymru a dyrannu cyllid ychwanegol o'r Cynllun Twf a'r Parth Buddsoddi yn amodol ar:

1. **Dod i gytundeb ar materion a drafodwyd yn adran 6.3 (a) a (b) yr adroddiad.**

2. **Y bydd buddsoddiad a nodwyd yn rhan 6.3(c) o'r adroddiad yn amod ariannu i'w weithredu cyn cymeradwyo'r Achos Busnes Llawn a /neu ei gynnwys yn y Cytundeb Cyllido Grant, pa bynnag un sydd gynharaf.**
3. **Y bydd cymeradwyaeth yr Achos Busnes Llawn yn amodol ar y penderfyniadau buddsoddi yn adran 6.3(d)**

Dirprwyo i'r Cyfarwyddwr Portffolio i drafod gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar yr amodau a osodir gyda chymeradwyaeth derfynol i'w cheisio gan yr Is-bwyllgor Lles Economaidd (yn amodol ar gyngor y Swyddog Monitro), mewn ymgynghoriad gyda'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd.

Bod yr Is-bwyllgor yn nodi bod rhannu'r cyllid rhwng y Cynllun Twf a'r Porth Buddsoddi yn destun trafodaethau a phenderfyniad ar wahân cyn cymeradwyaeth yr Achos Busnes Llawn.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Yn unol â'r broses rheoli newid sydd ar waith, i ystyried y cais am newid a gyflwynir a'i oblygiadau.

TRAFODAETH

Trafodwyd yr Adroddiad.

11. ACHOS BUSNES AMLINELLOL PORTH BUSNES WRECSAM

Cyflwynwyd yr adroddiad gan gynrychiolwyr Rheolwr Rhaglen Cynllun Twf

PENDERFYNWYD

Cymeradwywyd Achos Busnes Amlinellol ar gyfer Prosiect Porth Busnes Wrecsam yn amodol ar gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i'r broses sicrwydd a gynhaliwyd, a bod Prifysgol Wrecsam yn mynd i'r afael â'r materion a nodir yn yr adroddiad, fel y'u disgrifiwyd yn Adran 7, a gofyn i Achos Busnes Llawn gael ei baratoi i'r Is-bwyllgor ei ystyried.

Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Portffolio mewn ymgynghoriad a'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd, y Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro i gytuno ar delerau drafft yn unol â'r adroddiad hwn fel sail i'r trefniadau ariannu terfynol ar gyfer y prosiect gael eu hymrwymo yn amodol ar gymeradwyo'r Achos Busnes Llawn.

Bod cymeradwyaeth yr Is-bwyllgor yn ddilys am gyfnod o ddeuddeg mis ac os na fydd y prosiect yn mynd ymlaen i Achos Busnes Llawn gymeradwy yn ystod y cyfnod hwn, bydd yn ofynnol iddo ddychwelyd a chyflwyno'r achos busnes i'r Is-bwyllgor i'w gymeradwyo.

Nodi'r bwriad i rannu'r cyllid rhwng y Cynllun Twf a'r Parth Buddsoddi ac y bydd y sefyllfa hon yn cael ei chadarnhau yn ystod y cam Achos Busnes Llawn.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Ceisio cymeradwyaeth yr Is-bwyllgor i'r Achos Busnes Amlinellol ar gyfer Porth Busnes Wrecsam gan Brifysgol Wrecsam.

TRAFODAETH

Trafodwyd yr Adroddiad.

Dechreuodd y cyfarfod am 09:30 a daeth i ben am 11:45.

_____

Cadeirydd

IS-BWYLLGOR LLES ECONOMAIDD
13 Mawrth, 2026

TEITL:	Rhaglen Sgiliau Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam
AWDUR:	Iain Taylor, Rheolwr Rhaglen Parth Buddsoddi Sian Lloyd Roberts a Rees Brown, Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol

1. DIBEN YR ADRODDIAD

1.1. Diben yr adroddiad yw cyflwyno'r Rhaglen Sgiliau Parth Buddsoddi i'r Is-Bwyllgor Lles Economaidd a cheisio'i gymeradwyaeth ar gyfer y rownd gychwynnol o brosiectau.

2. GALW AM BENDERFYNIAD

2.1. Gofynnir i'r Is-Bwyllgor Lles Economaidd:

- Nodi'r cynnydd ar roi'r Rhaglen Parth Buddsoddi ar waith mewn partneriaeth agos gyda'r Awdurdodau Addysg Lleol, Coleg Cambria, Prifysgol Wrecsam a'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol.

- Nodi'r broses ar gyfer datblygu'r prosiectau sy'n cael eu cynnwys yn yr adroddiad hwn a'u bod wedi cael eu cytuno fel prosiectau sgiliau priodol ar gyfer y Parth Buddsoddi i gefnogi'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol a'u bod yn cyd-fynd ag amcanion y Cynllun Sgiliau Parth Buddsoddi.

- Cymeradwyo'r cynigion prosiect a gyflwynwyd gan Goleg Cambria gwerth hyd at £8,183,000 a dirprwyo i Brif Weithredwr Uchelgais Gogledd Cymru, y Swyddog Monitro, a'r Swyddog Adran 151 mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd i gytuno ac ymrwymo i Gytundeb Cyllid Grant rhwng Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (CJC) a Choleg Cambria.

- Cymeradwyo'r cynigion prosiect a gyflwynwyd gan Brifysgol Wrecsam gwerth hyd at £4,247,014 adirprwyo i Brif Weithredwr Uchelgais Gogledd Cymru, y Swyddog Monitro, a'r Swyddog Adran 151 mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd i gytuno ac ymrwymo i Gytundeb Cyllid Grant rhwng Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd a Prifysgol Wrecsam.

3. RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. I geisio cymeradwyaeth yr Is-bwyllgor Lles Economaidd ar gyfer Rhaglen sgiliau Parth Sir y Fflint a Wrecsam. Bydd hyn yn galluogi dechrau'r rhaglen sgiliau Parth Buddsoddi ar yr adeg caiff y Parth Buddsoddi ei gytuno arno rhwng Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Cyd-bwyllgor Corfforaethol Gogledd Cymru, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Mae'r penderfyniadau yngylch buddsoddiad Parth Buddsoddi mewn sgiliau a hyfforddiant yn seiliedig ar yr egwyddorion canlynol:

- eu bod yn cyd-fynd â'r Strategaeth Sgiliau Parth Buddsoddi;
- y cânt eu cyflwyno mewn cyfleusterau neu gan bartneriaid yn Sir y Fflint a Wrecsam; a'u
- bod yn hygyrch i bawb.

4.2. Y Cynllun Sgiliau Parth Buddsoddi

Gellir crynhoi pwysigrwydd y Parth Buddsoddi ar gyfer Sir y Fflint a Wrecsam fel cyfle i hyrwyddo twf, cynhwysiant a gwella clystyrau economaidd presennol.

- Mae gan Sir y Fflint a Wrecsam un o'r clystyrau cryfaf o ran gweithgynhyrchu uwch yng Nghymru, gan gyflogi 19,000 o bobl.
- Mae'r sector yn wynebu cyfleoedd sylweddol drwy dechnolegau newydd, ond hefyd risgiau ynghylch gweithlu sy'n heneiddio, bylchau mewn sgiliau, a pharodrwydd y gweithlu yn y dyfodol.
- Mae angen dull cynhwysol i ehangu mynediad, denu grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, a datblygu cyfleoedd gyrfa lleol.

Diben strategaeth yw llywio'r broses o wneud penderfyniadau drwy sicrhau bod mwy o fynediad at gyfleoedd a bod anghenion busnes yn cael eu diwallu. Nod y strategaeth hon yn bennaf yw:





Gellir crynhoi'r dystiolaeth sy'n sail i'r Cynllun Sgiliau fel:

Meysydd Buddsoddi Allweddol

Bydd rhaglen sgiliau'r Parth Buddsoddi yn canolbwyntio ar y themâu a'r meysydd craidd canlynol, sy'n cwmpasu pob cam o lwybr cyflogaeth y sector.

Thema Ymyriad	Meysydd Ymyriad
Ymgysylltiad cynyddol ag Ysgolion a rhai dan 16 oed	• Ymgysylltiad gyrfaoedd • Codi ymwybyddiaeth o gyfleoedd lleol • Ehangu llwybrau STEM • Ymgysylltu â rhai dan 16 oed
Cefnogaeth i Ddysgwyr 16-18	• Ehangu Prentisiaethau • Lleoliadau gwaith • Darparu cymhellion i gyflogwyr ar gyfer prentisiaethau • Sicrhau bod yr hyfforddiant a ddarparir yn cyd-fynd ag anghenion y sector • Cyd-ddylunio'r Cwricwlwm dan Arweiniad Cyflogwyr
Llwybrau Uwch ar gyfer 18+	• Ehangu prentisiaethau gradd • Creu llwybrau MSc/PhD newydd

	• Cyflwyno bwtcampau sgiliau a micro-gymwysterau eraill • Cyd-ddylunio'r cwricwlwm dan arweiniad cyflogwyr
Uwchsgilio a Ailsgilio	• Ailhyfforddi ar gyfer newid gyrfa • Cefnogaeth ar gyfer dysgu gydol oes a dysgu'n seiliedig ar waith

Bydd llywodraethu'r rhaglen sgiliau Parth Buddsoddi'n effeithiol yn cael ei gydlynu gan Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru, tra bydd cyflwyno'r rhaglen yn cael ei arwain gan y Grŵp Llywio Sgiliau Parth Buddsoddi. O ystyried natur hirdymor y rhaglen Parth Buddsoddi a'r ansicrwydd ynghylch union amseriad unrhyw fewnfuddsoddiad yn y dyfodol, rhaid i'r rhaglen sgiliau barhau i fod yn hyblyg ac ymatebol ac felly bydd yn cael ei llywio gan Gynlluniau Cyflawni Blynyddol i nodi blaenoriaethau, llywio dyraniadau adnoddau a llunio gweithgareddau monitro.

5 CYFLWYNIAD I BROSIECTAU'R RHAGLEN SGILIAU PARTH BUDDSODDI

5.1. Prosiectau Coleg Cambria

Prosiect 1 - Ffatri Sgiliau Medru
Prif nod y prosiect hwn yw mynd i'r afael ag anghenion sgiliau presennol y sectorau Digidol a Gweithgynhyrchu Uwch yng Ngogledd Cymru, a'r rhai yn y dyfodol. Mae'n canolbwyntio ar ddau faes allweddol - Uwchsgilio - Darparu hyfforddiant uwch i weithwyr presennol er mwyn gwella eu galluoedd. Ailsgilio - Hyfforddi newydd-ddyfodiaid i'w paratoi nhw ar gyfer gyrfaoedd yn y sector. Mae'r prosiect yn cynnig ystod o raglenni hyfforddi ym maes Gweithgynhyrchu Uwch, Digidol, Rheoli a Diwydiant 4.0.

Hyd y prosiect: 5 mlynedd
Canlyniadau:

- Cefnogi o leiaf 25 sefydliad i gael mynediad at sgiliau Gweithgynhyrchu Uwch a Diwydiant 4.0
- Sefydlu 5 Canolfan Sgiliau Trosglwyddadwy
- Cyflwyno 8 Bŵtcamp Sgiliau
- Lleiafswm o 100 cwrs hyfforddi
- Lleiafswm o 1000 cyfranogwr wedi ymgysylltu neu ymrestru
- Lleiafswm o 5 cyflogwr yn gysylltiedig â chyd-ddylunio cyrsiau.

Prosiect 2 - Talent Newydd
Nod cyffredinol y rhaglen yw cynyddu cyfranogiad prentisiaethau (L2-L6) drwy wneud y llwybr yn fwy deniadol i unigolion a chyflogwyr. Bydd hefyd yn gwella cyfranogiad ac ymwybyddiaeth y dysgwr o gyfleoedd prentisiaeth yn Sir y Fflint a Wrecsam. Bydd ganddi rôl hanfodol mewn galluogi darpariaeth a ddiweddarwyd sy'n gysylltiedig â'r newidiadau a'r datblygiadau sydd yn yr arfaeth i brentisiaethau yn y sector. Bydd hyn yn annog twf yn y sectorau gweithgynhyrchu

uwch ar bob lefel, yn cynnwys Awyrofod, Digidol, Fferyllol, Bwyd a Diod, Cynhyrchu Papur a Pheirianneg Fecanyddol/Trydanol.

Hyd y prosiect: 5 mlynedd
Canlyniadau:

- 10 x Prentis BBaCh / blwyddyn
- 15 x Prentis Peirianneg Uwch / blwyddyn
- 10 x Prentis Gradd Ddigidol

5.2. Cais Cyllideb Coleg Cambria

Mae Coleg Cambria wedi gofyn am £8,183,000, y mae £1.5m ohono ar gyfer costau cyfalaf. Mae Tabl 1 yn dangos y dadansoddiad ar draws y prosiect Ffatri Sgiliau Medru a'r prosiect Talent Newydd.

Tabl 1 Cais Cyllideb Coleg Cambria

	2026/27	2027/28	2028/29	2029/30	2030/31	Cyfanswm
1. Ffatri Sgiliau Medru	362,000	599,000	677,000	822,000	845,000	3,305,000
2. Datblygu Rhaglen Awyrofod	65,000	65,000	65,000			195,000
2. Prentisiaeth Peirianneg Uwch	225,000	450,000	675,000			1,350,000
2. Prentisiaethau L3 (BBaCh)	135,000	270,000	270,000			675,000
2. Gradd-brentisiaeth ddigidol	90,000	180,000	270,000			540,000
2. Cynllun Cymhelliant i Gyflogwyr: Grant Cyflawniad BBaCh			35,000			35,000
2. Cynllun Cymhelliant i Gyflogwyr: Grant Presenoldeb AAU	50,000	100,000	150,000			300,000
2. Ailddatblygu Cyfalaf yng Ngholeg Cambria Glannau Dyfrdwy		100,000	1,400,000			1,500,000
2. Ymgysylltu â Chyflogwyr BBaCh a Recriwtio		35,000	36,000	37,000		108,000
2. Grant Presenoldeb BBaCh		25,000	50,000	100,000		175,000
Cyfanswm	**927,000**	**1,824,000**	**3,628,000**	**959,000**	**845,000**	**8,183,000**

5.3 **Prosiectau Prifysgol Wrecsam**

Prosiect 1 - Prentisiaethau Gradd: Gweithgynhyrchu Uwch (Lefel 6)
Prosiect i gynyddu mynediad at addysg uwch o ansawdd sy'n seiliedig ar waith ledled Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam, gan ymateb yn uniongyrchol i'r galw cynyddol am Brentisiaethau Gradd yn y rhanbarth.

Hyd y prosiect: 3 blynedd
Canlyniadau:

- 12 Lle Prentisiaeth Gradd bob blwyddyn, gan dargedu lleiafswm o 25 cwmni, BBaCh yn bennaf

Prosiect 2 - Interniaethau i Raddedigion

Prosiect i fynd i'r afael ag un o'r heriau mwyaf di-baid sy'n wynebu'r farchnad lafur ranbarthol: yr anhawster o ddal gafael ar dalent graddedigion yng ngogledd Cymru a sicrhau bod busnesau, yn enwedig o fewn y sector gweithgynhyrchu uwch, yn gallu cael mynediad at y sgiliau sydd eu hangen arnnynt i ffynnu. Mae'r cynnig yn cynnwys interniaethau 6 a 12 mis i raddedigion sy'n barod i fentro i rolau mwy sylweddol; mae'n gynllun lleoliad 8 wythnos dros yr haf

Hyd y prosiect: 4 mlynedd
Canlyniadau:

- *interniaethau 6 mis: 36;*
- *interniaethau 12 mis: 24;*
- *Lleoliadau haf: 32;*
- *Lleoliadau oddi ar y safle: 32*

Cyfanswm o 124 o gyfranogwyr

Prosiect 3 - Ymchwil PhD a Meistr

Prosiect i alluogi gweithwyr a graddedigion lleol i ymgymryd ag ymchwil lefel Meistr, MRes a PhD sy'n cyd-fynd â heriau gweithredol gwirioneddol a blaenoriaethau technolegol sy'n datblygu. Wedi ei gyd-ddylunio gan gyflogwyr, bydd cwmnïau'n cael mynediad at lefel uchel o Ymchwil a Datblygu.

Hyd y prosiect: 5 mlynedd
Canlyniadau:

- 3 chyfle PhD a 6 chyfle MRes sy'n canolbwyntio ar bynciau ymchwil sy'n cael eu harwain gan ddiwydiant mewn gweithgynhyrchu uwch, digideiddio, awtomeiddio a thechnolegau carbon isel. Bydd lleoedd Meistr cymorthdaledig yn cefnogi 48 o unigolion i ymgymryd ag astudiaeth uwch mewn meysydd sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau'r Parth Buddsoddi.

Prosiect 4 - Cyrsiau Addysg Uwch sydd wedi'u Cyd-greu

Bydd y prosiect Cyrsiau Addysg Uwch sydd wedi'u Cyd-greu yn sefydlu rhaglen gynhwysfawr o ddysg lefel uwch a arweinir gan gyflogwyr sy'n cyd-fynd ag anghenion Gweithgynhyrchu Uwch yn Wrecsam a Sir y Fflint. Bydd cyflogwyr yn llywio pob cam o ddatblygiad y cwrs er mwyn sicrhau perthnasedd, ymarferoldeb a chymhwysiad uniongyrchol i'r gweithle. Cynigir y ddarpariaeth drwy fodelau cyflawni hyblyg sy'n siwtio patrymau sifft, amserlennu'r gweithdy a gofynion penodol BBaChau a chyflogwyr mawr.

Hyd y prosiect: 5 mlynedd
Canlyniadau:

- Lleiafswm o 30 busnes yn arwain at 300 o gyfranogwyr yn cwblhau cyrsiau lefel uwch a micro-gymwysterau a ddyluniwyd gan gyflogwyr.

5.4. Cais Cyllideb Prifysgol Wrecsam

Mae Prifysgol Wrecsam yn gofyn am **£4,247,014** o gyllid refeniw gan y Dyraniadau Refeniw Sgiliau yn y Parth Buddsoddi.

Blwyddyn Ariannol	26/27	27/28	28/29	29/30	Cyfanswm
1. Prentisiaethau Gradd	334,000	345,000	355,000	-	1,034,000
2. Interniaethau i Raddedigion	341,200	358,260	376,173	404,982	1,480,615
3. Ymchwil PhD a Meistr	268,000	179,000	179,000	118,000	744,000
4. Cyrsiau Addysg Uwch sydd wedi'u Cyd-greu	227,000	238,350	250,268	272,781	988,399
Cyfanswm	1,170,200	1,120,610	1,160,441	795,763	4,247,014

5.5. Dadansoddiad o Argaeledd Cyllid

Mae'r ceisiadau prosiect uchod wedi'u hariannu'n llawn gan ddyraniad y Parth Buddsoddi fel mae Tabl 3 isod yn ei ddangos. Mae'r cynigion yn gofyn am swm o £12.43m dros y cyfnod o 5 mlynedd. Mae'r dyraniadau sgiliau presennol sy'n cwmpasu'r meysydd hyn yn darparu ar gyfer buddsoddiad o £13.3m. Disgwylir prosiectau pellach (oddeutu £895k) ar y thema sgiliau gan Awdurdodau Addysg Lleol a darparwyr Annibynnol.

Tabl 3 - Dadansoddiad o Gyllid Sgiliau Parth Buddsoddi								
Thema Sgiliau Parth Buddsoddi (Thema Cynllun Cyflawni Blynyddol)	Dyraniadau Prosiect o Dabl 1 a 2 Uchod					Cynnig	Cyllideb	Gwahaniaeth
A Cyllid Sgiliau i gyd-fynd â threfniadau cyllid presennol	1,480,615	195,000	1,350,000	540,000		3,565,615	5,325,134	(1,759,519)
B Hyfforddiant wedi'i gyd-ddylunio â chyflogwyr	988,399	443,000	175,000	1,500,000	3,305,000	6,411,399	5,810,500	600,899
E Prentisiaethau sy'n canolbwyntio ar Weithgynhyrchu Uwch	1,034,000	744,000	675,000			2,453,000	2,189,000	264,000
Cyfanswm						12,430,014	13,324,634	(894,620)

Eglurhad a Chrynodeb o'r Tabl	
Coleg Cambria (yn cynnwys cyfalaf o £1.5m)	8,183,000
Prifysgol Wrecsam	4,247,014
Cyfanswm	**12,430,014**

Noder: Mae gan Brifysgol Wrecsam gais pellach o £3.645m sy'n ymwneud â Thalebau Sgiliau ac Arloesedd a fydd yn cael ei ddwyn ymlaen drwy ymgynghoriad â Bwrdd Arloesi Gogledd Cymru.

6. Y BROSES SICRWYDD A'R CANLYNIADAU

6.1. Mae cynnwys yr adroddiad hwn wedi'i ddatblygu ar y cyd a'i gytuno gan y Gweithgor Sgiliau Parth Buddsoddi. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, Medr (rheoleiddiwr ôl-16), Cynghorau Sir y Fflint a Wrecsam, Coleg Cambria a Phrifysgol Wrecsam a Gyrfa Cymru. Dechreuodd y broses yn ystod yr haf 2024 a chafodd ei gefnogi gan y cytundeb Cynllun Sgiliau Parth Buddsoddi yn 2025. Byddai'r partneriaid yn cyfarfod yn rheolaidd i adolygu tystiolaeth, profi angen a sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r sgiliau rhanbarthol a'r blaenoriaethau economaidd.

6.2. Mae'r adroddiad hwn wedi'i gyflwyno i'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol i'w ystyried. Mae'r dyraniadau ariannol i'r themâu sgiliau, yn ogystal â chyfeirio manwl at y prosiectau wedi'u cytuno gan Weithgor Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam (yr Arweinwyr Cyngor yn cyfarfod) a'u cynnwys yn y Cynllun Cyflawni Blynyddol y cytunwyd arno gan Is-bwyllgor Lles Economaidd y Cyd-bwyllgor Corfforedig.

6.3. Bydd sicrwydd yn y dyfodol yn rhoi pwyslais cryf ar ddangos ychwanegedd clir. Gan weithio'n agos â Medr, bydd y rhanbarth yn defnyddio dulliau cyfarwydd a sefydledig i fesur darpariaeth yn erbyn y gwaelodlinau, ac i asesu pa elfennau sy'n cynrychioli gweithgarwch gwirioneddol newydd neu gyda gwelliant y mae cyllid y Parth Buddsoddi hwnnw yn ei alluogi, yn hytrach na pharhad o'r ddarpariaeth bresennol. Bydd gofyn i ddarparwyr gyflwyno cynlluniau Monitro a Gwerthuso cynhwysfawr sy'n amlinellu bwriad y ddarpariaeth, y deilliannau disgwyliedig a'r cyfiawnhad dros y gwerth ychwanegol a ddarperir drwy'r cymorth gan y Parth Buddsoddi. Cynhelir gwaith asesu gwaelodlinau a phrofi ychwanegedd yn rhanbarthol, gan sicrhau tryloywder, trosolwg cyson ac alinio gyda nodau'r Parth Buddsoddi.

7. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

7.1. Mae'r goblygiadau cyfreithiol yn ymwneud yn bennaf gyda'r trefniadau cyfreithiol ynghylch sicrhau'r arian a rheoli'r goblygiadau a gyfyd o fuddsoddiad y Llywodraeth i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ar gyfer y Parth Buddsoddi, a'r Cytundeb Arian Grant dilynol rhwng y Cyd-bwyllgor Corfforedig a'r partner, sef yn yr achos hwn y Cytundebau Arian Grant gyda Phrifysgol Wrecsam a Choleg Cambria. Y disgwyliad yw y bydd y cymeradwyon a roddir yn yr Adroddiad hwn yn destun Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth (MOU) cyflawn ar gyfer y Parth Buddsoddi, a Llythyr Cynnig Grant cytunedig.

7.2. Bydd y prosiectau a amlinellir yn yr Adroddiad hwn yn cael eu cynnwys o fewn dau Gytundeb Arian Grant, un gyda Choleg Cambria a'r llall gyda Phrifysgol Wrecsam. Mae Geldards LLP wedi paratoi Templed o Gytundeb i'w addasu, i'w gytuno gan gynrychiolaeth gyfreithiol Swyddog Monitro y Cyd-bwyllgor Corfforedig a'r partner.

7.3. Bydd y gofynion darpariaeth perthnasol ar y Cyd-bwyllgor Corfforedig, fel y nodir yn yr Parth Buddsoddi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, yn cael eu hamlygu yn y ddau Gytundeb Arian Grant.

8. GOBLYGIADAU ARIANNOL

8.1. Mae'r goblygiadau ariannol allweddol yn ymwneud â'r adnoddau i gyflawni'r prosiectau hyn ac yn rhoi'r sail ar gyfer sut y bydd Prifysgol Wrecsam a Choleg Cambria yn hawlio'r arian gan y CJC. Bydd arian y Parth Buddsoddi'n cael ei dalu ymlaen llaw gan Lywodraeth Cymru i'r CJC drwy'r Llythyr Cynnig o Arian. Disgwylir i hyn fod wedi ei dderbyn erbyn adeg yr EWSC.

8.2. Bydd hawliadau yn erbyn y prosiect yn cael eu gwneud un ai'n fisol neu'n chwarterol (i'w gytuno). Bydd tystiolaeth ar gyfer y Llywodraeth ar gyfer yr hawliad yn ofynnol gan y partner cyn i'r hawliad gael ei gymeradwyo a'i dalu.

8.3. Mae'r Adroddiad yn nodi y dylai'r prosiectau fod yn berthnasol o fewn cwmpas y dyraniadau sgiliau a gytunir o fewn y Cynllun Cyflawni Blynyddol a'r ddogfennaeth Porth a gytunir arni gan hefyd gefnogi'r MOU. Mae lefel y buddsoddiad ychydig yn gyflym o'i gymharu ag iteriadau blaenorol y gyllideb ar gyfer y 5 mlynedd gyntaf. Rheolir hyn dros gyfnod y rhaglen i sicrhau bod y rhaglen honno'n gyson o ran y ddarpariaeth o sgiliau ac yn adlewyrchu gofynion y sector ac yn addasu i'r angen ehangach a chyd-destun yr ariannu.

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

"Nodi'r trefniadau llywodraethu a sicrwydd a ddisgrifir yn yr adroddiad, gan gynnwys y bwriad i gwblhau dogfennau'r rhaglen Ardal Buddsoddi a gosod Cytundebau Cyllid Grant gyda darpariaethau monitro ac archwilio priodol. Ar y sail honno, rwy'n fodlon i'r Is-Bwyllgor fynd ymlaen gyda'r cymeradwyaethau a'r dirprwyon fel y nodir."

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

"Nid oes gennyf unrhyw wrthwynebiad i'r penderfyniadau a geisiwyd, a byddwn yn cefnogi'r swyddogion wrth i'r Rhaglen Sgiliau Parth Buddsoddi symud ymlaen i'w gyflawni".